## Rhan 4: Templed ar gyfer adendwm i ddiweddaru’r adroddiad Asesiad Risg Llifogydd Rhagarweiniol

**ADENDWM**

**Diweddariad i’r adroddiad asesiad risg llifogydd rhagarweiniol i Gyngor Gwynedd**

Cafodd yr Asesiad Risg Llifogydd Rhagarweiniol (ARLlRh) i Gyngor Gwynedd ei adolygu yn ystod 2017, gan ddefnyddio’r holl wybodaeth risg llifogydd perthnasol a chyfredol, a bu i Gyfoeth Naturiol Cymru gytuno ar Dachwedd 17, 2017.

Mae’r datganiadau isod yn disgrifio’r adolygiad o’r asesiad o’r risg ers i’r adroddiad asesiad rhagarweiniol gael ei gyhoeddi yn 2011.

**Risg Llifogydd Hanesyddol**

Cafwyd adolygiad o’r llifogydd a ddigwyddodd ers y cyhoeddiad cyntaf o’r adroddiad asesiad risg llifogydd rhagarweiniol yn 2011 a darganfuwyd bod y llifogydd isod wedi arwain at ganlyniadau niweidiol sylweddol lleol:

Cafwyd dau ddigwyddiad arwyddocaol a achosodd lifogydd helaeth yng Ngwynedd, Tachwedd 2012 a Rhagfyr 2015. Bu i’r ddau ddigwyddiad yma achosi llifogydd i bum eiddo a mwy mewn nifer o gymunedau. Roedd y cymunedau yma o fewn ardaloedd sydd wedi eu dynodi yn ardaloedd o fod mewn perygl o lifogydd.

**Risg Llifogydd y Dyfodol**

Nid oes unrhyw wybodaeth newydd wedi’i ddarganfod ers y cyhoeddiad cyntaf o’r Adroddiad Asesiad Risg Llifogydd Rhagarweiniol yn 2011 sydd wedi arwain at newid yn y ddealltwriaeth o’r risg o lifogydd yn y dyfodol. Mae’r natur a’r cymhlethdod o ragweld digwyddiadau o lifogydd yn y dyfodol yn parhau i fod yr her fwyaf mewn rheoli risg, er hynny, wrth ddefnyddio dulliau cydweithiol rhwng yr awdurdodau rheoli risg, lleihau’r risg a chael gwell dealltwriaeth o amcangyfrifon y dyfodol, gall sicrhau fod cymunedau efo’r gallu i fod yn gynaliadwy ac yn wydn i lifogydd yn y dyfodol.

**Ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd**

Bydd cylchred 1 yr ardaloedd sydd mewn perygl o lifogydd yng Nghymru yn cael ei adolygu fel rhan o Asesiad Risg Llifogydd Rhagarweiniol manwl a chyfunol, a fydd yn cynnwys pob ffynhonnell o risg o lifogydd erbyn Rhagfyr 22, 2018.